Neuadd y Sir
Y Rhadyr
Brynbuga
NP15 1GA

Dydd Mercher, 12 Rhagfyr 2018

**Hysbysiad o gyfarfod:**

# Cyngor Sir

## Dydd Iau, 20fed Rhagfyr, 2018 at 2.00 pm, Council Chamber - Council Chamber

# AGENDA

*Prayers will be said prior to the Council meeting at 4.55pm. All members are welcome to join the Chairman for prayers should they wish to do.*

| Eitem No | Eitem | Tudalennau |
|---|---|---|
| 1. | **Ymddiheuriadau am absenoldeb** | |
| 2. | **Fforwm Agored i'r Cyhoedd** | |
| 3. | **Cyhoeddiad y Cadeirydd a derbyn deisebau** | 1 - 2 |
| 4. | **Rhestr o Gynigion** | |
| 4.1. | **O'r Cynghorydd Sirol D. Batrouni**<br><br>Mae'r cyngor hwn yn anghytuno'n gryf â phenderfyniad Cyngor Dinas Casnewydd i dynnu'n ôl o'r gwasanaeth SENCOM rhanbarthol ac mae'n gresynu'n fawr lefel yr ansicrwydd y mae wedi'i greu ynghylch y rhwydwaith cymorth hanfodol hwn. Bod Cyngor Sir Fynwy yn parhau i fod wedi ymrwymo'n gadarn i'r gwasanaeth hwn ac y bydd yn gweithio gyda'r holl bartneriaid i leihau unrhyw ansicrwydd neu ofnau sydd gan staff a rhieni. | |
| 4.2. | **O'r Cynghorydd Sirol D. Batrouni**<br><br>Bod y Cyngor yn dechrau'r broses o 'archwilio'r posibilrwydd o' gynyddu'r dreth gyngor ar ail gartrefi sydd wedi bod yn wag am dros 6 mis yn y flwyddyn ariannol nesaf. Yn nodi yr amcangyfrifir ei fod yn debygol o godi dros £200,000 y flwyddyn ac y bydd yn cael y fantais ychwanegol o annog pobl i beidio â phrynu eiddo Sir Fynwy fel cartrefi gwyliau nad ydynt ond yn byw ynddynt am ran o'r flwyddyn. Yn ogystal â gwrthbwyso rhywfaint o'r diffyg yn y gyllideb, mae'r grŵp Llafur yn annog y Cyngor i neilltuo £30,000 a godwyd o hyn, fesul blwyddyn, i helpu i | |

ariannu gofalwyr lleol ifanc gyda'u ffioedd dysgu os ydynt yn mynd i'r brifysgol. Dylai unrhyw swm o'r arian sydd heb ei wario bob blwyddyn fynd i gronfa cyfiawnder cymdeithasol newydd wrth gefn er mwyn cefnogi agenda cyfiawnder cymdeithasol y Cyngor.

4.3. **Oddi wrth y Cynghorydd Sirol T. Thomas**

Mae'r Cyngor Llawn yn cydnabod, o ganlyniad i waith Tir y Cyhoedd yng nghanol tref y Fenni, nad yw gwasanaethau bysiau sy'n cael eu gweithredu gan gerbydau mwy yn gallu cael mynediad i'r arosfannau bysiau yn Frogmore Street mwyach.

Mae'r arhosfannau eraill yng nghanol y dref wedi'u lleoli ar balmant cul heb ei gysgodi ar Heol Henffordd neu yn yr Orsaf Fysiau. Fodd bynnag, mae'r rhain yn eithriadol o anghyfleus ac anymarferol i lawer o breswylwyr hŷn a'r rhai sydd â symudedd cyfyngedig a rhieni â phlant ifanc.

Mae teithwyr bws yn defnyddio arhosfan bysiau answyddogol y tu allan i Robert Price ar Park Road, ar y A40, y barnwyd ei fod yn anaddas ac yn anniogel gan SEWTRA. Mae teithwyr sy'n aros yno heb gysgod na seddi.

Mae'r Cyngor yn cyfarwyddo'r Adran Briffyrdd i wneud cynnydd cyn gynted ag y bo modd i sefydlu arhosfan bysiau addas ar yr A40 – y safle a nodir yng Ngham 3 o'r gwaith Tir y Cyhoedd yw sefydlu arhosfan bysiau ar ddiwedd siop Tesco (ar hyn o bryd lle mae'r gwelyau blodau) fel y gall teithwyr bws aros mewn cysgodfa addas gyda seddi. Mae'r ddarpariaeth bresennol yn gwbl annigonol.

4.4. **Oddi wrth y Cynghorydd Sirol J. Watkins**

Cafodd y fasnachfraint rheilffyrdd newydd ei chymryd drosodd gan Drafnidiaeth Cymru yn yr Hydref. Ers iddynt wneud hynny, mae gwasanaethau wedi cael eu cwtogi dro ar ôl tro i'r gorsafoedd yn Sir Fynwy. Meddyliwch am brif wasanaeth cymudo'r bore tuag at Fryste a Chaerdydd sy'n galw am 08:17 yn Lydney, 08:25 yng Nghas-gwent, 08:35 yng Nghil-y-coed, ac am 08:38 yng Nghyffordd Twnnel Hafren. O arolwg o'r gwasanaeth hwn ym mis Hydref a Thachwedd cafodd ei ganslo 17 diwrnod allan o 25.

Mae Trafnidiaeth Cymru yn dweud eu bod yn ceisio peidio ag effeithio'n anghymesur ar yr un grŵp o gwsmeriaid ond mae'r ffigurau hyn yn dangos ein bod yn colli llawer mwy o wasanaethau na gweddill llinell Cheltenham - Maesteg.

Gofynnwn i'r cyngor hwn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn pam mae safonau'r gwasanaeth wedi gostwng mor sylweddol, a'r cyfeiriad y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi i drafnidiaeth i Gymru i ddatrys y problemau hyn.

5. **Cwestiynau'r Aelodau:**

5.1. **Oddi wrth y Cynghorydd Sirol J. Becker i'r Cynghorydd Sirol P. Murphy**

| | | |
|---|---|---|
| | Gyda'r darparwr gwasanaethau Interserve yn awr mewn trafferthion ariannol mawr, a all yr Aelod Cabinet am adnoddau ddweud wrthym ba gontractau neu wasanaethau a gyflenwir gan y cwmni hwn ac, os yw'n briodol, dweud wrthym ba gamau sy'n cael eu cymryd i leihau unrhyw risg i ein trigolion. | |
| **6.** | **Adroddiadau'r Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol, Diogelu ac Iechyd** | |
| **6.1.** | **Cartref Gofal Crick Road** | 3 - 40 |
| **6.2.** | **Strategaeth Ddigartrefedd Gwent** | 41 - 258 |
| **7.** | **Adroddiad y Prif Swyddog, Plant a Phobl Ifanc** | |
| **7.1.** | **Sefydlu tîm prosiect i gefnogi datblygiadau Ysgolion yr 21ain Ganrif ar gyfer Sir Fynwy** | 259 - 268 |
| **8.** | **I gadarnhau cofnodion cyfarfodydd y Cyngor Sir ar 25ain Hydref 2018** | 269 - 276 |
| **9.** | **I nodi Rhestr Weithredu'r Cyngor Sir** | 277 - 280 |
| **10.** | **I nodi'r cofnodion canlynol:** | |
| **10.1.** | **Y Pwyllgor Archwilio 13eg Medi 2018** | 281 - 290 |
| **10.2.** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd 24 Medi 2018** | 291 - 294 |
| **10.3.** | **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus 18 Gorffennaf 2018** | 295 - 298 |

**Paul Matthews**
**Prif Weithredwr**

CYNGOR SIR FYNWY

MAE CYFANSODDIAD Y PWYLLGOR FEL SY'N DILYN:

| | |
|---|---|
| Cynghorwyr Sir: | P. Clarke<br>D. Batrouni<br>D. Blakebrough<br>M. Powell<br>V. Smith<br>D. Dovey<br>A. Easson<br>R. Edwards<br>D. Evans<br>P.A. Fox<br>R.J.W. Greenland<br>L. Guppy<br>R. Harris<br>J. Higginson<br>G. Howard<br>S. Howarth<br>D. Jones<br>P. Jones<br>S. Jones<br>S.B. Jones<br>P. Jordan<br>P. Murphy<br>B. Strong<br>F. Taylor<br>A. Watts<br>A. Webb<br>K. Williams<br>J.Becker<br>L.Brown<br>A.Davies<br>L.Dymock<br>M.Feakins<br>M.Groucutt<br>R.John<br>L.Jones<br>M.Lane<br>P.Pavia<br>J.Pratt<br>R.Roden<br>T.Thomas<br>J.Treharne<br>S. Woodhouse |

## Gwybodaeth Gyhoeddus

**Mynediad i gopïau papur o agendâu ac adroddiadau**

Gellir darparu copi o'r agenda hwn ac adroddiadau perthnasol i aelodau'r cyhoedd sy'n mynychu cyfarfod drwy ofyn am gopi gan Gwasanaethau Democrataidd ar 01633 644219. Dylid nodi fod yn rhaid i ni dderbyn 24 awr o hysbysiad cyn y cyfarfod er mwyn darparu copi caled o'r agenda hwn i chi.

**Edrych ar y cyfarfod ar-lein**
Gellir gweld y cyfarfod ar-lein yn fyw neu'n dilyn y cyfarfod drwy fynd i www.monmouthshire.gov.uk neu drwy ymweld â'n tudalen Youtube drwy chwilio am MonmouthshireCC. Drwy fynd i mewn i'r ystafell gyfarfod, fel aelod o'r cyhoedd neu i gymryd rhan yn y cyfarfod, rydych yn caniatáu i gael eich ffilmio ac i ddefnydd posibl y delweddau a'r recordiadau sain hynny gan y Cyngor.

**Y Gymraeg**
Mae'r Cyngor yn croesawu cyfraniadau gan aelodau'r cyhoedd drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Gofynnwn gyda dyledus barch i chi roi 5 diwrnod o hysbysiad cyn y cyfarfod os dymunwch siarad yn Gymraeg fel y gallwn ddarparu ar gyfer eich anghenion.

# Nodau a Gwerthoedd Cyngor Sir Fynwy

## Ein diben

Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy a Chydnerth

**Amcanion y gweithiwn tuag atynt**

- Rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i bobl
- Sir lewyrchus a chysylltiedig
- Cynyddu i'r eithaf botensial yr amgylchedd naturiol ac adeiledig
- Llesiant gydol oes
- Cyngor gyda ffocws ar y dyfodol

## Ein Gwerthoedd

**Bod yn agored**. Rydym yn agored ac yn onest. Mae pobl yn cael cyfle i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, dweud beth sy'n bwysig iddynt a gwneud pethau drostynt eu hunain/eu cymunedau. Os na allwn wneud rhywbeth i helpu, byddwn yn dweud hynny; os bydd yn cymryd peth amser i gael yr ateb, byddwn yn esbonio pam; os na allwn ateb yn syth, byddwn yn ceisio eich cysylltu gyda'r bobl a all helpu - mae adeiladu ymddiriedaeth ac ymgysylltu yn sylfaen allweddol.

**Tegwch**. Darparwn gyfleoedd teg, i helpu pobl a chymunedau i ffynnu. Os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn deg, byddwn yn gwrando ac yn esbonio pam. Byddwn bob amser yn ceisio trin pawb yn deg ac yn gyson. Ni allwn wneud pawb yn hapus bob amser, ond byddwn yn ymrwymo i wrando ac esbonio pam y gwnaethom weithredu fel y gwnaethom.

**Hyblygrwydd**. Byddwn yn parhau i newid a bod yn hyblyg i alluogi cyflwyno'r gwasanaethau mwyaf effeithlon ac effeithiol. Mae hyn yn golygu ymrwymiad gwirioneddol i weithio gyda phawb i groesawu ffyrdd newydd o weithio.

**Gwaith Tîm**. Byddwn yn gweithio gyda chi a'n partneriaid i gefnogi ac ysbrydoli pawb i gymryd rhan fel y gallwn gyflawni pethau gwych gyda'n gilydd. Nid ydym yn gweld ein hunain fel 'trefnwyr' neu ddatryswyr problemau, ond gwnawn y gorau o syniadau, asedau ac adnoddau sydd ar gael i wneud yn siŵr ein bod yn gwneud y pethau sy'n cael yr effaith mwyaf cadarnhaol ar ein pobl a lleoedd.